




Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Ymateb i'r cynnig ar ddyfodol Llys Ynadon Castell Nedd

[Cyhoeddir yr ymateb hwn ar 06 Chwefror 2014]



[leave this page blank – back of cover]



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Ymateb i'r cynnig ar ddyfodol Llys Ynadon Castell Nedd**

**Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.**

**Mae'r wybodaeth hon ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd:  
[www.justice.gov.uk](http://www.justice.gov.uk)**

[leave this page blank – back of title page]

## Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	3
Cefndir	4
Crynodeb o'r ymatebion	5
Ymatebion i bwyntiau penodol	7
Casgliad a'r camau nesaf	24
Egwyddorion yr ymgynghoriad	26
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr	27
Atodiad B - Amseroedd teithio	30

---

Ymateb i'r cynnig ar ddyfodol Llys Ynadon Castell Nedd

[leave this page blank – back of contents page]

## Cyflwyniad a manylion cyswllt

Ymateb yn dilyn yr ymgynghoriad ar y ddogfen "Cynnig ar ddyfodol Llys Ynadon Castell Nedd" yw'r ddogfen hon.

Bydd yn ymdrin â:

- chefnidir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad
- y penderfyniad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Mae copïau pellach o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori i'w cael drwy gysylltu â **Mark Elias** yn y cyfeiriad isod:

**Uned Gefnogi Cymru  
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM  
2<sup>il</sup> Lawr, Llys Ynadon Caerdydd a'r Fro  
Caerdydd  
CF24 0RZ**

**Ffôn: 029 2046 7761**

**Ebost: [mark.elias@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:mark.elias@hmcts.gsi.gov.uk)**

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth: [www.justice.gov.uk](http://www.justice.gov.uk).

Mae fersiynau eraill o'r cyhoeddiad hwn ar gael ar gais gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar 029 2046 7761.

### **Cwynion neu sylwadau**

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynglŷn â'r broses ymgynghori, dylech gysylltu â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y cyfeiriad uchod.

## Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori "Cynnig ar ddyfodol Llys Ynadon Castell Nedd" ar 26 Medi 2013. Roedd yn gwahodd sylwadau ar y cynigion i gau Llys Ynadon Castell Nedd a throsglwyddo'r llwyth gwaith i Lys Ynadon Abertawe. Hefyd, roedd yn cynnig uno Mainc Castell Nedd a Phort Talbot â Mainc Abertawe (h.y. Ardaloedd Cyfiawnder Lleol).

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 7 Tachwedd 2013, ac mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion a'r camau nesaf.

Diweddarwyd yr Asesiad o'r Effaith oedd yn rhan o'r ymgynghoriad er mwyn ystyried tystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae copi ynghlwm o'r Asesiad o Effaith wedi'i ddiweddarau.

Ceir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A.



## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y papur ymgynghori yn gwahodd ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

1. Pa sylwadau yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r cynnig i gau Llys Ynadon Castell Nedd, uno'r meinciau a throsglwyddo'r staff a'r llwyth gwaith i Lys Ynadon Abertawe?
2. Disgrifiwch unrhyw effeithiau penodol y dylid eu hystyried a pham.
3. A fydd cau Llys Ynadon Castell Nedd yn effeithio'n uniongyrchol arnoch chi? Os bydd, rhowch fanylion ychwanegol.

Fodd bynnag, nid oedd pob ymatebydd wedi dewis cyflwyno eu barn fel hyn, ac oherwydd y dadansoddiwyd yr ystod gyflawn o ymatebion, roedd yn amlwg fod ymatebwyr yn codi pwyntiau dan benawdau penodol. Felly, cyflwynwyd y pwyntiau a godwyd, ac ymateb Gwasanaeth Llysoedd a Thriwiwnlysoedd EM iddynt, dan y themâu hyn yn y crynodeb o'r ymatebion hwn.

Daeth cyfanswm o 63 o ymatebion i'r papur ymgynghori i law. O'r rhain roedd:

- Pum ymateb gan Gynghorwyr Cymuned, Cynghorwyr Tref a Chynghorwyr Sir
- Pum ymateb gan Aelodau o Lywodraeth Cynulliad Cymru
- Dau gan Aelodau'r Senedd
- 37 gan ynadon lleol
- 14 o ymatebion eraill gan unigolion, sefydliadau a phwyllgorau lleol.

O'r 63 o ymatebion, roedd pump yn cefnogi'r cynnig i gau Llys Ynadon Castell Nedd, 57 yn gwrthwynebu ac roedd un yn niwtral.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cael mynediad at gyfiawnder lleol; amseroedd teithio, lleoliadau eraill i gynnal y ddarpariaeth o ran gwasanaethau yng Nghastell Nedd Port Talbot a'r capasiti yn Abertawe.

Roedd sylwadau yn bob un o'r ymatebion bron yn dweud eu bod yn cefnogi cau adeilad y llys yn ei safle presennol er mwyn galluogi adfywio Castell Nedd, gan fod yr adeilad yn rhwystro datblygu'r safle ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn dadlau y dylid cadw presenoldeb llys ynadon o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot.

O'r holl ymatebion, roedd pump yn cefnogi'r cynnig i gau Llys Ynadon Castell Nedd. Roedd y prif themâu fel a ganlyn:

- Lleihau'r nifer o adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio yn yr ystâd a defnyddio rhagor ar ganolfan llys mwy
- Cyfleusterau gwell o ran teithio i Abertawe

Roedd 57 yn gwrthwynebu'r cynnig i gau'r llys. Roedd y prif themâu fel a ganlyn:

- Trafnidiaeth i Lys Ynadon Abertawe a Mynediad at Gyfiawnder
- Lleoliadau eraill yng Nghastell Nedd ar gyfer cymryd llwyth gwaith y llys ynadon
- Uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol a'r effaith ar Ynadon
- Data gwallus yn y Papur Ymgynghori a'r Asesiad o Effaith.

Roedd y rhain a gweddill yr ymatebion yn codi pwyntiau penodol, ac ystyrir y rhain yn yr adrannau drosodd.

Mae'r holl bwyntiau a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi'n llawn, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cau Llys Ynadon Castell Nedd.

- Penderfynwyd y dylid cau Llys Ynadon Castell Nedd;
- Bod y llwyth gwaith yn symud i Abertawe; a
- Bod Ardaloedd Cyfiawnder Lleol Castell Nedd Port Talbot ac Abertawe yn uno i greu Ardal Cyfiawnder Lleol Gorllewin Morgannwg.

## Ymatebion i bwyntiau penodol

### 1. Trafnidiaeth/Mynediad at Gyfiawnder Lleol

Amcangyfrifir y byddai oddeutu 91% o'r boblogaeth, y mae llys ynadon Castell Nedd agosaf iddynt ar hyn o bryd, yn gallu cyrraedd Llys Ynadon Abertawe mewn 90 munud ar drafndiaeth gyhoeddus (gweler y tabl yn Atodiad B). Mae hyn yn debyg i Gymru yn gyffredinol, ble mae 90% o'r boblogaeth yn gallu cyrraedd eu llys ynadon agosaf o fewn 90 munud ar drafndiaeth gyhoeddus.

Roedd nifer o ymatebion, gan ynadon yn bennaf, yn cynnwys sylwadau ar y cynnydd o ran amser a chostau teithio, a fyddai'n codi o drosglwyddo llwyth gwaith Llys Ynadon Castell Nedd i Abertawe.

"Bydd rhaid i mi ystyried y goblygiadau o ran y cynnydd mewn amser teithio oherwydd tagfeydd traffig yn y Ddinas yn ystod yr adegau prysur yn y bore a'r prynhawn. Efallai bydd yn rhaid i mi ystyried ymddiswyddo o'r Llys Oedolion a chanolbwyntio ar y gwaith Teulu yn unig. Nid wyf yn sicr a fyddai hyn yn dderbyniol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ai peidio." [Mrs C Probert YH]

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn derbyn y bydd yn effeithio ar rai ynadon sy'n gorfod teithio i Abertawe, ond bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio gyda'r ynadaeth i sicrhau bod eu lleoliad o fewn y llysoedd ynadon yn effeithlon a chost effeithiol.

"Bydd hyn yn golygu cost ychwanegol i Ynadon Castell Nedd, o ran amser ac arian...ond, mewn cyfnod pan mae treuliau ynadon dan y lach, a dim arian ar gyfer hyfforddiant, gallaf weld fod problemau yn gysylltiedig â hyn." [Mrs R S A Parker YH]

Er bod costau teithio ychwanegol ar gyfer yr ynadon fydd yn teithio'r naw milltir o Gastell Nedd i Abertawe, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ad-dalu'r gwahaniaeth. Mae'n debygol y byddai'r amser a'r costau teithio yn llai ar gyfer rhai ynadon, yn enwedig i'r ynadon sy'n byw yn agosach i Lys Abertawe na Chastell Nedd.

Awgrymwyd os bydd Llys Ynadon Castell Nedd yn cau, y byddai pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol sylweddol yng Nghymoedd Castell Nedd yn wynebu taith hir ac anodd. Dyma rai o'r sylwadau a wnaethpwyd:

"Teimla aelodau Cyngor Cymuned Coedffranc y byddai'n fwy priodol i symud Llys Ynadon Abertawe i Lys Ynadon Castell Nedd yn hytrach na'r ffordd arall rownd. Mae'r aelodau yn pryderu am y cysylltiadau trafndiaeth o Gyymoedd Castell Nedd i Abertawe. Mae hygyrchedd gwasanaeth bws o Gyymoedd Castell Nedd i Abertawe yn gyfyngedig iawn..." [Ms W Thomas, MILCM, Clerc y Cyngor]

Derbynnir y ffaith y byddai teithio i Gastell Nedd yn fwy cyfleus ac yn haws i rai na theithio i Abertawe. Nid oes digon o le yn Llys Ynadon Castell Nedd i gymryd y gwaith o Lys Ynadon Abertawe. Mae chwe llys yn Abertawe a thri yng Nghastell Nedd.

“Rwy’n pryderu am ddefnyddwyr y llys, nid yr ynadon na’r staff, sydd, a siarad yn gyffredinol, â mynediad at geir ac sydd â rhagor o ddewis nag aelodau difreintiedig o’r gymuned sy’n wynebu’r system cyfiawnder.” [Ms H J Heaven YH]

“Mae’r aelodau wedi cael braw fod canran y boblogaeth all gyrraedd y llys o fewn 30 munud yn mynd i lawr i 3% ar ôl cau Llys Ynadon Castell Nedd os nad ydynt yn berchen ar gar.” [Ms W Thomas, MILCM, Clerc y Cyngor]

“Mae’r rhan fwyaf o gwsmeriaid llys Castell Nedd yn dod o ran uchaf Cwm Tawe a hyd yn oed ymhellach i’r gorllewin i ran uchaf Cwm Aman (Gwaun Caer ayb). Mae hyn yn gwneud cysylltiadau â Chastell Nedd yn anodd iawn ac mae teithio i Abertawe yn haws o safbwynt daearyddol yn hynny o beth, ond heb amheuaeth byddai cau’r llys yn cael effaith niweidiol ar boblogaeth Castell Nedd ei hun. Yn gyffredinol, y sefyllfa yw y byddai o fudd i’r boblogaeth sy’n teithio’n bell i Gastell Nedd ar hyn o bryd, fyddai’n ei chael yn haws cyrraedd Abertawe.” [Cyfreithwyr Clive Rees]

Mae’n yn wir y byddai rhai siwrneiau anodd ar drafnidiaeth gyhoeddus o Gymoedd Castell Nedd i Abertawe, ond nid yw hyn ar ei ben ei hun yn rheswm i gadw’r llys ar agor. Er bod yr amser teithio efallai dros awr, rhaid rhoi ystyriaeth i’r llwyth gwaith isel a ddaw o’r ardaloedd hyn. Mae’r daith o Gastell Nedd i Abertawe oddeutu naw milltir, ac mae’n hygyrch ar y ffordd yn ogystal ar fws a thrên.

“Os gweithredir y cynigion, bydd rhagor o gostau, a chostau annerbyniol ar gyfer holl ddefnyddwyr y llys. Byddai’r amser teithio gyda thrafnidiaeth gyhoeddus o bentrefi ar ochrau uchaf Castell Nedd, Cwm Afan a Chwm Tawe yn annerbyniol o hir a chymhleth.” [Mrs M Rees YH]

“Nid diffynyddion yn unig sydd angen bod yn bresennol yn y llys, ond gall fod yn ofynnol i rieni fod yn bresennol mewn gwrandawriadau’r llys ieuentid. Byddai’r amser yn gyfyngedig iawn i deuluoedd, unig rieni ayb gyda phlant oedran ysgol i fynd â’r plant i’r ysgol ac yna dod i’r llys. Pam fyddai GLITEM yn disgwyl i rieni beidio ag anfon eu plant i’r ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn mynychu’r llys? A oes asesiad effaith perthnasol ar gostau cymdeithasol y cynnig hwn?” [Mr R Ward, Tîm Troseddwyf Ifanc Castell Nedd Port Talbot]

“Mae llys Castell Nedd yn gwasanaethu poblogaeth wasgaredig ac amrywiol iawn. Mae’n ardal o amddifadedd cymdeithasol ble mae’r ddibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus yn uchel iawn. Mae’r gwasanaethau bws o’r rhanbarthau anghysbell yn ysbeidiol ac annibynadwy. Hefyd, mae oedi i’r gwasanaethau’n aml oherwydd isadeiledd gwael a thywydd garw.” [Ynadon Castell Nedd a Phort Talbot]

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn derbyn y bydd achlysuron pan fydd rhaid i rieni sydd i fod yn bresennol yn y llys wneud trefniadau gofal plant cyn ac ar ôl ysgol. Ar hyn o bryd, mae’n bosib ystyried eithriadau i’r gallu i fod yn bresennol yn y llys ar amser penodol ar sail achosion unigol, a gellir delio â hwy drwy’r prosesau rhestru. Bwriedir parhau â hyn pan drosglwyddir y llwyth gwaith i Lys Ynadon Abertawe.

Mae Port Talbot, Castell Nedd ac Abertawe ar y brif reilffordd rhwng Paddington yn Llundain ac Abertawe. Rhaid i’r bobl sydd am gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus eraill megis ysbytai mawr, ymgymryd â siwrneiau tebyg. Nid oes angen i’r rhan fwyaf o aelodau’r gymuned fynychu llys ynadon yn rheolaidd.

“Ynadon lleol sy'n adnabod yr ardal ddylai wrando ar achosion lleol mewn adeilad lleol.” [B a P W Jones]

“Byddai cau llys Castell Nedd yn golygu fod y cysylltiadau cadarn rhwng y system cyfiawnder troseddol a'r cymunedau a wasanaethir gan y llys yn cael eu colli yn anadferadwy, a allai fod yn anfantais i Ynadon lleol.” [Ms L Fleet, Cymdeithas Ynadon Gorllewin Morgannwg]

Bydd ynadon lleol yn parhau i wrando'r achosion, gan y rhai o Gastell Nedd Port Talbot ac Abertawe. Byddai Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM eisiau cadw'r cysylltiadau priodol, os yw'n bosibl, yn ogystal ag asiantaethau eraill, ac ni fyddai cau Llys Ynadon Castell Nedd yn newid y sefyllfa hon.

## 2. Lleoliadau eraill yng Nghastell Nedd

Roedd nifer o'r ymatebion yn awgrymu lleoliadau eraill ar gyfer ailsefydlu'r llys, neu safleoedd caffael i gadw Llys Ynadon o fewn Castell Nedd Port Talbot.

"Rwyf eisoes wedi lleisio fy nghefnogaeth mewn egwyddor i adfywio canol tref Castell Nedd. Gallaf weld nad yw'r gwrthwynebiad, ar y cyfan, yn ceisio rhoi hyn yn y fantol, ac nid yw'n ymddangos fod unrhyw bryderon penodol mewn perthynas â cholli'r adeiladau presennol. Mae'r pryderon am golli'r gwasanaeth, a dyna'r pryderon rwy'n eu rhannu." [Suzy Davies AC]

"Mae gan Gastell Nedd Port Talbot boblogaeth o tua 138,000, sydd ddim yn boblogaeth ddjarwyddocâd, sydd eisiau cadw'r system cyfiawnder yn lleol." [Y Cynghorydd J Rogers BEM YH]

"Mae'r cynlluniau i adfywio canol y dref yn bwysig, ond dylid eu hystyried fel cyfle i ddarparu cyfleusterau llys ynadon sy'n addas ar gyfer y pwrpas mewn lleoliad arall yng Nghastell Nedd, yn hytrach na dod â'r gwasanaeth i ben yn gyfan gwbl." [Cynghorydd A Llewellyn]

"I gychwyn, mae'n rhaid i mi ddatgan fy mod wedi fy siomi'n fawr gyda'r ffaith y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad gyda dim ond dau ddewis. Rwy'n ymwybodol fod opsiynau eraill wedi cael eu hystyried, ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori hon, a dylid ailystyried yr opsiynau eraill hyn." [David Rees AC]

"Mae pedwerydd opsiwn, sef cadw Llys Ynadon Port Talbot, Ffordd Cramic. Ni ystyriwyd hyn o gwbl gan y rhai a ysgrifennodd y papur ymgynghori a'r asesiad o effaith." [Ynadon Castell Nedd a Phort Talbot]

"Mae amheuan mawr ymysg undebwyr llafur fod Swyddfa'r Cabinet a'r Trysorlys yn gosod y telerau ar y mater hwn. Nid yw'n ymddangos fod ymgais o ddifrif i gadw'r llys yn yr ardal leol." [DTUS, Undeb Llafur PCS]

"Yn wir, tan fis Medi, roedd ASau, ACau, Cynghorwyr, Ynadon, Cyfreithwyr, yr Heddlu a staff y llys i gyd dan yr argraff y byddai holl fusnes y llys yn cael ei drosglwyddo i lys sirol wedi'i ailwampio ar ôl dymchwel yr adeilad llys presennol yng Nghastell Nedd, fyddai'n defnyddio'r celloedd yn yr orsaf Heddlu cyfagos. Dyrannwyd yr arian ar gyfer hyn o gyllidebau Ewropeaidd ac yng Nghymru. Nid yw'r rhanddeiliaid sydd ynghlwm wrth greu'r dewis arall hwn wedi cymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriad i ddileu'r trydydd opsiwn rhag cael ei drafod. Ni wyddys ble mae'r £1.4m a ddyrannwyd wedi mynd." [Mrs E Davis YH]

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ymwybodol o gynlluniau'r Cyngor i adfywio'r dref ers nifer o flynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM mewn trafodaethau ffurfiol parhaus gyda'r Cyngor ynglŷn â'r opsiwn posibl i symud lleoliad Llys Ynadon Castell Nedd. Diystyriwyd y safleoedd eraill a gynigodd y Cyngor mewn adeiladau a rennir, fel y Ganolfan Ddinesig, o ganlyniad i'r diffyg cyfleusterau diogel a'r llif drwy'r safle. Roedd y Cyngor wedi canfod o leiaf un safle arall yn gynnar yn eu cynlluniau adfywio ar gyfer adeilad newydd. Amcangyfrifir y byddai adeilad newydd yn costio rhwng £6m a £11m.

Rhoddyd ystyriaeth fanwl i'r dewis i adleoli i Lys Sirol Castell Nedd, a fyddai wedi golygu cael mynediad i ddefnyddio ystafelloedd y ddalfa yn yr orsaf heddlu sydd gerllaw. Roedd

disgwyl i'r Cyngor lleol ariannu'r opsiwn hwn i wneud iawn am y gwaith ailwampio angenrheidiol. Amcangyfrifir y byddai wedi costio oddeutu £1.46m i symud y Llys Ynadon i'r Llys Sirol, ac nid yw hyn yn fforddiadwy nac yn ymarferol bellach. Fodd bynnag, byddai'r cynlluniau hyn wedi golygu symud y Llys Sirol i Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot, ac amcangyfrifwyd yn 2012 y byddai hyn wedi costio o leiaf £285k. Mae llawer o staff Gorfodaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi'u lleoli yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Port Talbot, ac mae eu gwaith yn cael ei ganol fwyfwy yn yr adeilad hwn. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dymuno cadw'r adeilad ar gyfer y diben hwn, ac ar gyfer llwyth gwaith y tribiwnlys a'r llys teulu ar hyn o bryd. Anogir gwneud defnydd ar y cyd o'r adeilad oherwydd bod hyn yn golygu y gellir cynnal busnes y llys a'r tribiwnlys yn fwy effeithiol.

Wrth benderfynu ar yr opsiynau i ymgynghori ar ddyfodol Llys Ynadon Castell Nedd, mae'n rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM roi'r sylw priodol i sicrhau y defnyddir ei ystâd i ddarparu cyfiawnder yn effeithiol ac effeithlon, wrth ddarparu gwerth am arian i bwrs y wlad. O ystyried y llwyth gwaith a ddaw o Gastell Nedd, a'r defnydd isel a wneir o Abertawe sydd gerllaw, ni ellir ystyried unrhyw beth arall ond uno Castell Nedd Port Talbot ag Abertawe yn werth gorau am arian.

### 3. Uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol a'r effaith ar Ynadon

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys uno Ardal Cyfiawnder Lleol Castell Nedd a Phort Talbot ag Ardal Cyfiawnder Lleol Abertawe, felly roedd nifer o sylwadau ynglŷn ag effaith uno'r Meinciau. Pryder arall oedd y gall recriwtio a chadw ynadon o Gastell Nedd Port Talbot ddod yn broblem.

“Byddwn yn croesawu fy nghydweithwyr o Gastell Nedd â chwarteisi, ond byddai logisteg y trosglwyddo a'r uno; yn enwedig o ran cadeirio'r fainc a phwyllgorau'r fainc, yn golygu llawer o newid, nid yn unig i'n cydweithwyr yng Nghastell Nedd ond i'r staff gweinyddol yn yr adran gyfreithiol hefyd. [Ms G A Scannell MBE]

“Mae gan Gastell Nedd Port Talbot ac Abertawe ddiwylliant gwahanol; ni fyddai ymarferoldeb yr uno mor hawdd â'r hyn a nodir yn yr asesiad o effaith.” [Ms G Bond YH]

“Hefyd, gallai uno Mainc Ynadon Abertawe â Mainc Ynadon Castell Nedd gael effaith niweidiol ar weinyddu cyfiawnder yn ei hun.” [Gwenda Thomas AC]

“Mae'r datganiad asesiad o effaith a gyhoeddwyd gyda'r papurau ynghylch cau Llys Ynadon Castell Nedd yn crybwyll (sail resymegol economaidd dros ymyrryd) fod y Llywodraeth yn ymyrryd am resymau ecwiti (“tegwch”) a byddai'n ddiddorol gwybod sut mae'r tegwch hwn yn berthnasol i aelodau o'r cyhoedd yn ardaloedd Castell Nedd a Phort Talbot, oherwydd nid yw eu mynediad i wasanaeth llys lleol, am nifer o resymau economaidd ac amser, yn cael ei drin yn deg na chyfartal.” [Mrs G Norton YH]

“Mae'n bosib y gall mainc gyfunol ag Abertawe fod yn rhwystr i recriwtio ynadon o'r ystod lawn o gymunedau yng Nghastell Nedd Port Talbot yn y dyfodol o ganlyniad i'r diffyg cysylltiad â hunaniaeth ag Abertawe. Felly, efallai bydd yn rhoi amrywiaeth, yn nhermau cynrychiolaeth gymunedol, mewn perygl, a fydd yn atgyfnerthu'r datgysylltiad anochel rhwng y system cyfiawnder troseddol â chymryd cyfrifoldeb a gwneud iawn yn lleol.” [Ms L Fleet, Cymdeithas Ynadon Gorllewin Morgannwg]

Penodir ynadon i gynrychioli amrywiaeth y boblogaeth yn y gymuned, a beirniadu achosion yn ddiuedd, gan sicrhau eu bod yn cyflwyno cyfiawnder yn deg. Gall Bwyllgor Ymgynghorol Lleol yr Arglwydd Ganghellor ar Ynadon Heddwch fynd i'r afael ag unrhyw dangynrychiolaeth ynadon yn nhermau amrywiaeth a gallant, os yw'n briodol, dargedu ymgyrch recriwtio i sicrhau fod hyn yn cael ei gyflawni.

“Er gwaethaf gwneud ymholiadau eang a helaeth, nid wyf wedi llwyddo i ganfod yr un unigolyn na rhanddeiliaid (“parti â diddordeb”) sydd wedi cael unrhyw drafodaeth cyn ymgynghori ynglŷn â'r cynnig i symud y gwaith i Lys Ynadon Abertawe ac uno ardaloedd Cyfiawnder Lleol Castell Nedd Port Talbot ag Abertawe. Mae hyn yn achos pryder mawr i mi.” [Mrs J Jenkins YH MBE]

‘Nid yw trafodaethau cyn ymgynghori yn rhywbeth arferol mewn perthynas ag unrhyw gynnis i gau adeiladau llys. Gweinidogion sy'n cymeradwyo ymgynghoriadau ar gau llysoedd, ac yn gyffredinol, ni fyddai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn barod i achub y blaen ar benderfyniad Gweinidog yn hyn o beth. Yr ymarfer ymgynghori oedd y cyfle i ymateb gydag unrhyw sylwadau a gwybodaeth ychwanegol yr oedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy am iddi gael ei hystyried.



Pryder arall a godwyd gan ynadon ar fainc Castell Nedd Port Talbot a Mainc Abertawe oedd y posibilrwydd o leihad yn nifer y diwrnodau eistedd pe bai'r meinciau'n uno.

“Mae'n ofynnol i ynadon eistedd am o leiaf 26 hanner diwrnod, neu 13 diwrnod llawn y flwyddyn. Er mwyn sicrhau nad yw ynadon yn colli sgiliau, mae'n ddymunol, os yw'n bosibl, iddynt eistedd rhwng 35 a 40 o sesiynau, neu oddeutu 20 diwrnod y flwyddyn. Os yw Mainc Castell Nedd Port Talbot (tua 70+ o ynadon) yn uno gyda Mainc Abertawe (tua 120+ o ynadon) byddai'n creu Mainc o tua 200 o ynadon. Er mwyn cadw'n weithredol a chyflawni'r telerau a gytunwyd arnynt gyda'r Arglwydd Ganghellor, mae angen 4000 o ddiwrnodau eistedd ar 200 o ynadon i gyd.” [Ynadon Castell Nedd a Phort Talbot]

Gall y trefniadau i gynllunio ar gyfer cau Llys Ynadon Castell Nedd ac uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol Abertawe â Chastell Nedd Port Talbot fynd ymlaen yn awr. Golygai hyn fod angen i'r Clerc Ynadon gysylltu gyda Chadeiryddion y Meinciau ac ymgynghori gyda hwy ar y trefniadau rhestru arfaethedig. Un o'r amcanion fydd pennu isafswm o 26 eisteddiad i bob ynad. Bydd Pwyllgor Ymgynghorol Lleol yr Arglwydd Ganghellor yn cadw niferoedd y Fainc dan sylw, ond dyrennir eisteddiadau i bob ynad. Ni ragwelir lleihad yn y llwyth gwaith o ganlyniad i gau unrhyw lys.

Ni fydd uno'r Meinciau (h.y. Ardaloedd Cyfiawnder Lleol) yn cael unrhyw effaith ar faint o waith y bydd angen i'r ynadon ei gyflawni, a rhagwelir mai cyfyngedig fydd yr effaith uniongyrchol ar y gofynion mewn perthynas â'r diwrnodau eistedd.

“Roedd Ynadon Castell Nedd yn croesawu cyfuno gydag Abertawe.” [Mr D H Rees YH]

Mae ynadon yn aelodau gwerthfawr o'r farnwriaeth, ac maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd er budd y cymunedau a wasanaethir ganddynt, ym mhle bynnag y maent yn darparu cyfiawnder.

## 4 Data

Awgrymodd nifer o ymatebwyr, sef 22 ohonynt, fod y data yn y papur Ymgynghori a'r Asesiad o Effaith yn anghywir, annigonol ac/neu'n ddiffygiol.

“Disgrifir y cynnig i gau mewn papur ymgynghori a dogfen Asesiad o Effaith. Dogfennau y byddai rhai yn eu disgrifio fel dogfennau o natur arwynebol iawn. Nid oes llawer o fanylion ar yr elfennau hanfodol sy'n sail i achos GLITEM dros gau'r llys - sef y defnydd a wneir o'r llys a chostau. Nid oes eglurhad am y ffigurau a ddyfynnwyd, nid ydynt wedi'u gosod yn fanwl ac felly ni ellir eu herio mewn unrhyw ffordd arwyddocaol.” [Mr P Davies, YH wedi ymddeol]

“Mae'r asesiad o effaith yn llawn datganiadau croes i'w gilydd, yn ogystal â 'ffeithiau a ffigurau' anghywir. Mae hygredd y ddogfen yn wael iawn”. [Mrs C Wheeler]

Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn cwestiynu ffynhonnell y data a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad o Effaith.

“Rydym yn awgrymu fod y data ar ddaearyddiaeth a'r boblogaeth leol sydd yn yr Asesiad o Effaith yn anghyflawn ac/neu'n wallus. Poblogaeth Castell Nedd Port Talbot yw 137,100 (cyfrifiad 2011) gyda dwysedd poblogaeth o 311 o bobl bob cilomedr sgwâr. Mae hyn dros ddwywaith dwysedd poblogaeth Cymru.” [Ynadon Castell Nedd a Phort Talbot]

“Mae pryderon ynglŷn â mynediad yn ei ystyr ehangach. Credwn fod y cyfrifiadau yn yr asesiad o effaith yn wallus, ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth y realiti ar gyfer dioddefwyr, diffynyddion a'u teuluoedd a chefnogwyr. Mae'r ffigurau'n honni fod y bobl sy'n gorfod dod i'r llys ar hyn o bryd yn byw yn agos i'r adeilad llys presennol.” [Mr R Merrill, Cyngor Castell Nedd Port Talbot ar gyfer Gwasanaeth Gwirfoddol]

Yn benodol, roedd yr Asesiad o Effaith yn cymryd i ystyriaeth y pellter ychwanegol mwyaf y byddai'n rhaid i bobl sy'n mynd i Lys Ynadon Abertawe deithio, unwaith y byddai Llys Ynadon Castell Nedd yn cau. Er y cydnabyddir y bydd amseroedd teithio ar gyfer rhai unigolion sy'n mynd i'r llys yn cynyddu, gall bawb deithio i Abertawe o fewn awr mewn car o Gastell Nedd Port Talbot.

Ar gyfer y rhai sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, bydd amser teithio 65% o'r boblogaeth yn llai nag awr a 91% yn llai na 90 munud. Nid oes angen i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth fynychu llys ynadon yn rheolaidd.

Rhoddyd ystyriaeth lawn i'r boblogaeth, ac mae'r ffigurau sy'n ymwneud â llwyth gwaith a data defnyddio'r llys yn dangos fod Llys Ynadon Castell Nedd yn cael ei danddefnyddio 57%. Wrth benderfynu pa leoliad fyddai orau ar gyfer symud y llwyth gwaith hwn, roedd ystyried llys cyfagos naw milltir i ffwrdd sydd hefyd yn cael ei danddefnyddio 51%, yn caniatáu Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM i gynnal busnes y llys a'r triwilysoedd yn ei ystâd yn Abertawe yn fwy effeithlon.

Hefyd, holodd rhai ynadon ynglŷn â chostau cyflawni gwaith cynnal a chadw angenrheidiol yn Llys Ynadon Castell Nedd pe bai'r adeilad yn parhau ar agor.

“Honnir fod angen £1.3m ar gyfer cynnal a chadw adeilad presennol Llys Ynadon Castell Nedd. Nodwyd hyn heb unrhyw fanylion o ran sut cyfrifwyd y ffigwr hwn, a pha waith a gynigwyd neu sy'n angenrheidiol i gyrraedd y ffigwr hwn.” [Mrs R Evans YH]

“Os yw'r adeilad mewn cyflwr gwael o ganlyniad i ddiffyg gwaith atgyweirio a bod angen ei foderneiddio, yn sicr, dylid fod wedi osgoi ychydig o'r gost oherwydd gwaith cynnal a chadw parhaus ac addasu pan oedd arian ar gael.” [Mrs O Newton YH OBE]

Mae'r gwaith cynnal a chadw sy'n aros i'w wneud yn Llys Ynadon Castell Nedd yn cynnwys gosod to a ffenestri newydd, ac ychydig o waith atgyweirio strwythurol, sy'n cynnwys y ddalfa. Mae angen gwaith ailwampio yn y liffert hefyd.

Cysylltodd nifer fechan o'r ymatebwyr â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cyfnod ymgynghori o chwe wythnos, er prin oedd y rhai a gyfeiriodd at hyn yn benodol yn eu hymateb ffurfiol.

“Credaf fod y ‘broses ymgynghori’ yn wallus yn y bôn, ac o ganlyniad, mae'n gyfnod cwta sy'n gyfyngedig i chwe wythnos.” [Mr P D Llewellyn YH]

Gyda golwg ar addasrwydd y cyfnod ymgynghori chwe wythnos ar gyfer y cynnig hwn, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn hyderus fod ymgynghoriad chwe wythnos yn ddigonol. Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddwyd Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig gan Weinidog y Llysoedd yn datgan y byddai ymgynghoriadau ar gynigion i gau llysoedd a thribiwnlysoedd yn y dyfodol, yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, yn para chwe wythnos. Cefnogir y safbwynt hwn yn nifer yr ymatebion a dderbyniwyd, sef 63. Roedd copi o'r ymgynghoriad ar gael i'r rhanddeiliaid a restrir ar dudalen chwech y papur ymgynghori. Yn ogystal, cyhoeddwyd y papur ymgynghori a'r Asesiad o Effaith ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

“Gwrthodwyd ceisiadau gan nifer o uwch reolwyr GLITEM Cymru i drafod y cynnig i uno ardaloedd cyfiawnder lleol Abertawe â Chastell Nedd Port Talbot yn bendant. Y neges gan WLITEM oedd na ellir trafod unrhyw faterion yn ymwneud â gweithredu'r cynnig hwn tan ar ôl cael penderfyniad y Gweinidog; tan hynny, mae'n 'fusnes fel arfer.’” [Ynadon Castell Nedd a Phort Talbot]

Hysbyswyd rhanddeiliaid ynglŷn â'r ymgynghoriad, a oedd ar y we, drwy e-bost. Roedd hysbysiadau yn y manau cyhoeddus yn Llysoedd Ynadon Castell Nedd ac Abertawe, ac roedd y penderfyniad terfynol ar ddyfodol Llys Ynadon Castell Nedd yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogol, felly ni fyddai'n briodol i ddechrau cynllunio ar y cynigion oni bai, a hyd nes y gwnaethpwyd penderfyniad. Mae'n bosib dechrau trafodaethau ynglŷn â chynllun pontio yn awr.

## 5. Llwyth Gwaith a Defnydd

Llys Ynadon Castell Nedd yw'r unig Lys Ynadon yn Ardal Cyfiawnder Lleol Castell Nedd a Phort Talbot.

Yn ystod 2012/13, deliodd Llys Ynadon Castell Nedd ag 8,691 o achosion wedi'u cwblhau, a 57% oedd y gyfradd defnyddio. Mae hyn yn cynnwys gwaith teulu a'r tribiwnlys, a gaiff ei ailgyfeirio i Ganolfan Llysoedd Sifil Abertawe a Chanolfan Cyfiawnder Port Talbot o'r 1 Ionawr ymlaen.

Awgrymodd nifer o ymgynghoreion (naw) efallai na fyddai gan Lys Ynadon Abertawe ddigon o gapasiti i dderbyn y gwaith.

“Mae troseddu yn Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot yn cynyddu, er bod lleihad cyffredinol yn Ne Cymru. Yng Nghastell Nedd Port Talbot, mae wedi cynyddu bron i 4%, a byddai cau'r llys yng Nghastell Nedd yn golygu efallai na fyddai llys Abertawe yn gallu ymdopi.” [Mr P J Jones YH]

Fel y nodir yn y papur Ymgynghori, mae canran defnyddio Castell Nedd yn 57% ac Abertawe yn 51%. Mae llwyth gwaith cyfunol llysoedd Abertawe a Chastell Nedd yn dangos cyfradd defnyddio yn erbyn capasiti presennol Abertawe o tua 80%.

“...nid oes gan y Ganolfan Cyfiawnder Sifil y ddau lys ychwanegol arfaethedig sy'n angenrheidiol i gymryd y gwaith hwn hyd yn hyn. Nid ydynt wedi cael eu hadeiladu eto.” [Mrs C Wheeler DL YH BSc (Hon) M.Ed]

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwiwnlysoedd EM yn awr wedi ystyried sut orau i ddefnyddio ystâd y llys i gadw gwaith o wahanol awdurdodaeth ar wahân, ble bynnag y bo'n bosibl. Mae cynlluniau eraill i ddarparu rhagor o ystafelloedd gwrandawiadau yng Nghanolfan Llysoedd Sifil Abertawe, a fydd yn sicrhau yr adleolir yr holl waith teulu a sifil i'r ganolfan honno neu adeilad arall sy'n perthyn i Wasanaeth Llysoedd a Thriwiwnlysoedd EM, cyn cau Llys Ynadon Castell Nedd, er mwyn creu capasiti ychwanegol ar gyfer gwaith troseddol yn Llys Ynadon Abertawe.

Dywedodd nifer o ymatebwyr mai'r rheswm dros y lleihad yng nghyfradd defnyddio Llys Ynadon Castell Nedd oedd oherwydd bod y gwaith Traffig a Thrwyddedu Teledu wedi symud oddi ym mis Ionawr 2013.

“Pe byddai'r gwaith Traffig a Thrwyddedu Teledu wedi aros yng Nghastell Nedd, byddai'r ffigurau defnyddiol yn dangos o leiaf 62.5% mewn adeilad â 3 ystafell llys.” [Mrs M Rees YH]

“Rhaid gofyn pam fod y gwaith traffig a thrwyddedu teledu wedi cael ei symud ar 1 Ionawr 2013, oherwydd mai dyma yw'r rheswm dros y lleihad yn ffigurau defnyddio'r llys yng Nghastell Nedd, ac felly'n cryfhau'r achos i gynigion GLITEM. Tra bod ad-drefnu gwaith fel hyn yn ymddangos yn syniad da, mae wedi gorlwytho Llys Caerdydd, yn ogystal â lleihau'r ffigwr defnyddio ar gyfer Castell Nedd Port Talbot.” [Mr D Herbert YH]

Byddai cyfradd defnyddio 62.5% yn Llys Ynadon Castell Nedd dal i fod yn llawer is na'n cyfradd gweithredu gorau posibl, sef 80%. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwiwnlysoedd EM yn cydnabod fod cyfradd defnyddio llys Castell Nedd wedi gostwng yn rhannol oherwydd symud y gwaith Traffig a Thrwyddedu Teledu. Fodd bynnag, newidiwyd y lleoliadau ar gyfer

rhestru gwaith Traffig a Thrwyddedu Teledu ym mis Ionawr 2013 o ganlyniad i benderfyniad a wnaethpwyd yn lleol gan y Clerc Ynadon. Roedd hyn yn amherthnasol i'r Ymgynghoriad ar ddyfodol Llys Ynadon Castell Nedd. Mae'r gwaith traffig yn cael ei ganoli ym mhob ardal o ganlyniad i bolisi'r Llywodraeth, er mwyn gwneud arbedion effeithlonrwydd, gan gynnwys hwyluso cyflwyno erlyniadau sy'n cael eu harwain gan yr heddlu mewn achosion o'r fath. Felly, nid yw canoli'n effeithio llawer ar y rhai sy'n dod i'r llys. Yn bwysig, mae diffynnyddion sy'n pledio'n ddiueg neu sy'n gorfod dod i'r Llys yn cael cynnig gwrandawriad yn yr ardal llys ble cyflawnwyd y drosedd honedig. Mewn cymhariaeth, nid yw erlyniadau trwydded teledu yn cymryd llawer o amser y llys, ac mewn achosion o'r fath, gellir eu trosglwyddo i lys lleol y diffynnydd hefyd.

Holodd dau ymatebydd pam cynnig Llys Ynadon Castell Nedd i gau cyn llysoedd eraill.

“Os mai pwrpas cau llys Castell Nedd yw oherwydd cyfradd defnyddio isel, yna mae llawer o lysoedd eraill yng Nghymru y dylid eu hystyried cyn Castell Nedd...”[staff Llys Ynadon Castell Nedd]

“Nid wyf yn credu y dylai Castell Nedd ddiodef oherwydd bod Llys Ynadon Abertawe yn cael ei danddefnyddio.” [Peter Hain AS]

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cydnabod fod nifer o adeiladau llys ar hyd a lled Cymru a Lloegr sy'n cael eu defnyddio hyd yn oed llai na Llysoedd Ynadon Castell Nedd ac Abertawe. Fodd bynnag, mae cynlluniau adfywio Castell Nedd wedi ei gwneud yn ofynnol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM werthuso'n benodol yr angen parhaus ar gyfer Llys Ynadon o fewn ffiniau'r dref. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i ddefnyddwyr y llys a thribiwnlys, i ganolbwyntio ar wasanaethau'r rheng flaen a darparu mynediad at gyfiawnder. Bydd yn parhau i adolygu'r ystâd i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion gweithredol. Byddai unrhyw gynigion newydd i gau llysoedd ar wahân i'r rhai a gyhoeddwyd eisoes yn destun ymgynghoriad, a byddai pob achos yn cael ei ystyried ar ei deilyngdod ei hun.

Roedd pum ymatebydd yn gefnogol o'r trosglwyddo gwaith a fyddai'n deillio o'r cynnig hwn.

“Rwy'n cymeradwyo'r cynlluniau i ddefnyddio'r llys sirol ar gyfer achosion Teulu – symudiad y gellir fod wedi'i wneud flynyddoedd yn ôl er mwyn rhyddhau adeilad y Llys Ynadon ar gyfer ei addasu a chreu rhagor o le ar gyfer gwaith troseddol.” [Mrs O Newton YH OBE]

“Rydym oll yn credu nad yw llys ynadon Castell Nedd yn cynhyrchu gwaith ei hun i aros ar agor, a byddwn yn croesawu symud i Abertawe.” [Mr C Rees, Cyfreithiwr]

“Byddai cael yr holl waith troseddol yn Abertawe yn ei gwneud yn haws i'w reoli, ac o ganlyniad yn creu arbedion maint a sicrhau rhagor o gysondeb.” [Ed Beltrami, CCP]

Mae asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill yn debygol o gael canlyniadau tebyg, oherwydd byddai'r gwasanaethau a ddarperir yn well yn ogystal â gostyngiad mewn costau cyhoeddus.

“Ar hyn o bryd, y dyddiad cynharaf sydd ar gael ar gyfer rhestru treial am ddiwrnod llawn yn Abertawe yw 13 Rhagfyr, a'r 20 Rhagfyr yng Nghastell Nedd. Sef saith wythnos ar gyfer Abertawe ac wyth wythnos ar gyfer Castell Nedd. Targed y llywodraeth yw chwe wythnos.” [staff Llys Ynadon Castell Nedd]

Mae oedi o ran cynnal treialon yn Llysoedd Ynadon Castell Nedd ac Abertawe o fewn lefelau goddefiant derbyniol. Byddai dod â busnes y ddau lys at ei gilydd, mewn amser, yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i restru a gwrando achosion, gan alluogi trosglwyddo busnes o un ystafell llys i'r llall, a fyddai'n osgoi amser segur pan nad yw'r busnes yn mynd ymlaen fel y'i cynlluniwyd, neu fod achosion yn cymryd rhagor o amser nag y rhagwelwyd.

“A ellir sicrhau staff na fyddant yn colli eu gwaith, er y crybwyllwyd y byddai lle i bawb yn Abertawe ar ôl uno, mae rhai yn poeni am y dyfodol e.e. a fyddai penderfyniad eilradd yn cael ei ystyried peth amser ar ôl uno nad oes angen bob aelod o'r staff, hyn sy'n peri ansicrwydd i staff...” [Mr K D Jones YH]

Mae staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi cael manylion yn bersonol ac un unigol o ran yr effaith posibl arnynt hwy. Fodd bynnag, fel y nodant yn eu hymateb, "rydym yn deall y bydd ymgynghoriadau unigol un i un" mewn lle er mwyn iddynt fynd i'r afael â'r materion hyn ar sail unigol a phreifat.

“Effaith sy'n fuddiol gan y bydd rheoli busnes GEG yn haws ac yn golygu ansawdd gwell o ran rheoli achosion.” [Ed Beltrami, CCP]

“Rwy'n croesawu'r cynigion hyn fel datblygiad positif ar gyfer Castell Nedd. O'i ystyried ar ei ben ei hun, mae'r ddadl ar gyfer uno Meinciau Castell Nedd ac Abertawe a throsglwyddo'r llwyth gwaith a'r staff i lys Ynadon Abertawe yn argyhoeddiadol....O'i ystyried yng nghyd-destun y cynllun ailddatblygu arfaethedig - fel y mae'n rhaid ei wneud yn sicr – ni ellir gwrthwynebu'r ddadl...” [Mr C Lewis, cyhoedd]

Mae ffocws ar ble gellir gwella wrth ddarparu busnes y llys yn un o'r anghenion allweddol ar gyfer pob asiantaeth cyfiawnder troseddol, gan sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer dioddefwyr, tystio a defnyddwyr eraill y llys. Y ffocws ar gyfer Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fydd darparu'r gwasanaeth gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael.

## 6. Adeilad

Roedd gan nifer o ymatebwyr bryderon na fyddai llawer o le i ehangu pe byddai'r amgylchiadau'n newid yn Abertawe yn y dyfodol. Teimlai eraill na roddwyd ystyriaeth i'r darlun mawr. Cafwyd sylwadau gan eraill ynglŷn â naill ai'r gwaith cynnal a chadw sydd angen cael ei gwblhau neu faterion yn ymwneud â'r adeilad yn gyffredinol.

“Bydd effaith anghymesur ar y bobl fwyaf bregus sy'n dod i'r llys ac sydd angen mesurau arbennig er mwyn gallu rhoi tystiolaeth. Rhwng llysoedd Castell Nedd ac Abertawe ar hyn o bryd, gellir defnyddio cyswllt fideo mewn dau lys, a bydd y cyfleuster hwn yn cael ei haneru ar amser pan mae GLITEM yn ceisio symud yn agosach at weithio'n ddigidol a chyflwyno rhith lysoedd fel ffordd o weithio.” [staff Llys Ynadon Castell Nedd]

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM wedi ymrwymo i ddarparu ac ehangu'r defnydd a wneir o gyswllt fideo dros amser. Ni wneir defnydd digonol o'r cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd, a phan fydd Castell Nedd yn cau, byddai Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn adleoli offer cyswllt fideo Castell Nedd i Abertawe. Bydd y ddarpariaeth yn Abertawe yn fwy na digon i ddelio gyda hyn yn awr, ac yn y tymor canolig.

“Er bydd hyn yn effeithio ar y llwyth gwaith yn llys Ynadon Abertawe, mae'r cyfleusterau yn Abertawe yn haws i'w defnyddio nag yn Llys Ynadon Castell Nedd, felly mae'r amgylchedd yn well i'r staff, y carcharorion ac i'r ymwelwyr cyfreithiol.” [Ms A Williams, GeoAmej]

Mae Llys Ynadon Abertawe yn cynnig cyfleusterau da, sydd ar sawl cyfrif, yr un mor dda neu'n hyd yn oed gwell na'r rhai a ddarperir yn Llys Ynadon Castell Nedd.

Awgrymwyd fod y cyfleusterau yn Llys Ynadon Abertawe yn salach ar gyfer defnyddwyr gydag anabledau. Nid yw hyn yn wir, ac ni dderbynnir y pwynt hwn. Er nad oes mynediad uniongyrchol i'r llys o'r celloedd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, rheolir y sefyllfa ar gyfer carcharorion ag anabledau sy'n dod i Llys Ynadon Abertawe drwy sicrhau mynediad at ystafelloedd llys sy'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

“Cynnydd mewn llwyth gwaith a diffyg lle yn y swyddfa ar gyfer staff sydd eisoes yn cael eu gwthio i'r eithaf.” [Ms A Carman YH]

“Ble mae holl staff y swyddfa a'r clerod cyfreithiol yn mynd os yw'r trosglwyddiad yn digwydd i Llys Ynadon Abertawe? Bydd y llysoedd yn llawn, a fydd yn effeithio ar y Gwasanaeth Tribiwnlys sy'n cael ei gynnal yn Llys Abertawe ar hyn o bryd?” [Mrs E W Perman YH]

Mae'r swyddfa yn Abertawe eisoes yn cael ei ailwampio er mwyn creu swyddfa cynllun agored mwy, gan ein bod yn ymdrechu i greu amgylchedd gwaith effeithiol a syml i'n gweithwyr. Heb symud gwaith y Llys Teulu a'r Tribiwnlys o Llys Ynadon Abertawe, derbynnir na fyddai digon o le i gymryd gwaith Castell Nedd. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM wedi bod yn ystyried sut orau i ddefnyddio ystâd y llys a gwneud y mwyaf ohoni ar gyfer ein gwahanol ddefnyddwyr. O ganlyniad i gyflwyno'r Un Llys Teulu ym mis Ebrill 2014, roedd angen dod o hyd i leoliad ar gyfer ein holl waith teulu mewn un llys ym mhob ardal Llys Teulu Dynodedig, gydag Abertawe yn un ohonynt.

“Mae parcio yn Llys Ynadon Abertawe yn anodd iawn yn barod, ond bydd yn amhosib gyda'r llysoedd ychwanegol yn cael eu cynnal.” [Mr R M Bradshaw YH]

Cydnabyddir fod y maes parcio agosaf i Lys Ynadon Abertawe yn ddrud a rhwng £6 a £12 y diwrnod. Rhagwelir y bydd ynadon sy'n dod i'r llys yn gallu defnyddio'r llefydd ym maes parcio'r llys. Mae adeiladau llys mewn lleoliadau eraill, fel Llys Ynadon Caerdydd a Bro Morgannwg, wedi gallu cytuno ar gyfradd drwy'r dydd rhatach (£3.50/£4) gyda'u maes parcio cyhoeddus lleol. Rhoddir ystyriaeth yn awr i ganfod a yw'n bosibl gwneud hyn yn Abertawe.

“Nid yw'n bosibl i lysoedd digidol weithio mewn lleoliadau anghysbell ble nad oes gorsafedd heddlu.” [Ynadon Castell Nedd a Phort Talbot]

Mae sefydliadau sy'n ymwneud â Chyfiawnder Troseddol yn gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio cyswllt fideo yn ehangach a gweithio'n ddigidol, ac nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i ragweld beth fydd y ddarpariaeth yn y dyfodol.

Ar ôl cau Llys Ynadon y Barri yn 2011, defnyddiwyd Cadoxton House yn y Barri i ddarparu cyswllt byw i Llys Ynadon Caerdydd a'r Fro er mwyn galluogi tystion i roi tystiolaeth yn lleol. Rhoddir ystyriaeth yn awr i ganfod a ellir gwneud hyn mewn safle yng Nghastell Nedd Port Talbot.



## 7. Costau cudd

Er byddai cau'r llys yn golygu fod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gwneud arbedion, teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r arbedion hynny'n dod yn ddyledion i sefydliadau eraill megis Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu, oherwydd byddai'r gost o sicrhau fod tystion yn mynychu'r llys a chostau teithio ar gyfer swyddogion yn uwch, yn ogystal ag amseroedd aros hwy.

Hefyd, mynegwyd pryderon yn y sylwadau na fyddai llawer o'r diffynyddion yn ymdrechu i fod yn bresennol yn Abertawe, ac y byddai'n rhaid codi gwarant i'w harestio.

"Hefyd, mae'n yn anodd cael diffynyddion i ddod i'r llys pan mae'n agos i'w cartref, ac wrth ddibynnu arnynt i deithio i dref arall rwy'n siŵr y byddai'n rhaid codi llawer mwy o warantau arestio." [Ms J Wright YH]

"Dylid ystyried y cynnydd posibl mewn diffyg presenoldeb a chodi gwarantau yn erbyn sicrhau y cynhelir perfformiad (yn unol â mesurau adroddiadau COMET)." [Mr I Barrow Prawf Cymru]

Yn anecdotiaidd, fel arfer y profiad yw nad oes unrhyw gydbertynas uniongyrchol rhwng y pellter y mae'n rhaid i ddiffynyddion deithio i'r llys ac unrhyw fethiannau iddynt wneud hynny. Yn gyffredinol, mae diffynyddion sydd wedi cael mechnïaeth yn troi fyny fel y bo'n ofynnol, ac nid oes llawer o dystiolaeth i awgrymu eu bod yn methu gwneud hynny pan fo rhaid iddynt deithio'n bellach. Mae diffynyddion o ardal Castell Nedd Port Talbot sy'n cael mechnïaeth i ymddangos yn Llys y Goron eisoes yn gorfod teithio i'r ganolfan Llys y Goron yn Abertawe.

Mae posibilrwydd bob amser fod dioddefwr a thyst yn defnyddio'r un drafnidiaeth a'r diffynnydd, pa faint bynnag yw hyd y daith. Fodd bynnag, mae'r prif wasanaeth drenau o Abertawe i Paddington Llundain yn cynnig wyth cerbyd, gyda phum cerbyd dosbarth safonol, sy'n lleihau'r tebygolrwydd o ddiodefwyr a diffynyddion yn cwrdd neu'n gorfod teithio'n agos i'w gilydd. Gellir cysylltu â'r Gwasanaeth Dioddefwyr, Gwasanaeth Cymorth Dioddefwyr a'r Uned Gofal Tystion pe bai angen cymorth ar ddiodefwyr neu dyst, gan gynnwys problemau gyda dod i'r llys.

"Mae rhai o'r rhain [costau cudd] yn union yr un fath â chyfrifiadau GLITEM, ond credwn fod y ffigurau yn tanlinellu...Bydd y costau cudd hyn yn effeithio ar ddefnyddwyr llys yn y gymuned leol, fel yr heddlu a'r gwasanaeth prawf, ac mewn cwmnïau lleol mwy yn bendant." [DTUS, Undeb Llafur PCS]

## 8. Effaith ar Economi Lleol

Gwnaethpwyd sylwadau ynglŷn â'r effaith ar y gymuned ehangach.

“Mae'n debygol y byddai cau Llys Ynadon Castell Nedd yn cael effaith negyddol ar wasanaethau lleol eraill sy'n gweithio ar y cyd â'r llys hefyd. Bydd yn effeithio ar fynediad at wasanaethau'r Gwasanaeth Prawf, sydd wedi'i leoli yn llys Castell Nedd ar hyn o bryd, a byddai'n rhaid iddynt hwy adleoli eu staff hefyd. Rwyf hefyd yn pryderu am effaith ariannol a chyffredinol cau'r llys ar y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, Gwasanaethau Cymorth i Ddiodefwyr a'r Gwasanaeth Tystion, sy'n delio gyda'r bobl fwyaf bregus.” [Peter Hain AS]

Tra bydd rhaid i rai sefydliadau aildrefnu eu gwasanaethau, ni fydd yn cael effaith negyddol bob amser. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru wedi dweud fod uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yn ymddangos yn gadarn a bydd yn helpu i ddarparu mwy o effeithlonrwydd a hyblygrwydd yng nghyswllt rhestru llysoedd.

“Er na ragwelir unrhyw ddiswyddiadau, bydd symud achosion troseddol yn effeithio ar y dref yn ariannol drwy siopwyr a chyfreithwyr yn colli masnach yng Nghastell Nedd.” [Cynghorydd A Thomas]

Er y rhagwelir y bydd unrhyw effaith ar siopwyr yn fach iawn, mae'n rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM sicrhau ei fod yn darparu ei wasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

Mae cynllun adfywio Castell Nedd i fod i greu cyfleoedd am swyddi a denu rhagor o ymwelwyr i ganol y dref hefyd.

## 9. Ymatebion eraill

Derbyniwyd nifer o sylwadau na ellir eu categoreiddio.

“...Cofnodion o gyfnod y Normaniaid yn y drydedd ganrif ar ddeg, a'r cestyll, ble cynhaliwyd Llysoedd Pie Powder ar ddiwrnodau ffair a marchnad, o fewn waliau'r castell a gynhaliwyd mewn trefi yng Nghymru yn nodedig a phwysig iawn, dim ond ychydig iawn o drefi tebyg sydd.... Fodd bynnag, mae cofnod clir o'r cyfnod hwnnw yng Nghastell Nedd, y Prif Ynad neu'r Maer, a'r Cynghorydd yn cynnal llys o'r math hwn o fewn waliau'r castell.” [Mr W G Rees YH]

“Bregusrwydd staff GeoAmey yn Llys Ynadon Castell Nedd mewn perygl o golli gwaith, un ohonynt yn Uwch Swyddog y Ddalfa.” [Ms A Williams, GeoAmey]

Bydd pob sefydliad yn gyfrifol am staff eu hunain, ac nid yw hyn yn rhywbeth i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd wneud sylw arno. Ni ragwelir y bydd llai o ddiffynyddion yn dod i'r llys o'r ddalfa o ganlyniad i'r penderfyniad i gau Llys Ynadon Castell Nedd. Bydd sefydliadau, fel a wnânt yn barod, yn gweithio'n hyblyg bob amser i sicrhau fod digon o adnoddau ar gael.

“Mae problem yn Abertawe ar y diwrnodau mae'r llys yn eistedd yn barod. Rydym wedi gweld mwy o broblemau'n ymwneud ag alcohol/cyffuriau yng nghanol y ddinas ar y dyddiau hynny.” [Julie Jones AC]

Mae bob dydd yn ddiwrnod llys yn y Llys Ynadon a'r Llys y Goron yn Abertawe. Mae'r llys yn mynnu y dylai'r rhai sy'n dod i'r llys wneud hynny'n sobr, ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod perthynas rhwng sesiynau'r llys a chynnydd mewn unrhyw broblem sy'n ymwneud ag alcohol neu gyffuriau.

Er na dderbyniwyd ymateb gan Lys y Crwner, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Em yn cynnig ystafell arall iddynt sy'n cwrdd â'u hanghenion.

## Casgliad a'r camau nesaf

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb manwl o'r pwyntiau a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Dadansoddwyd y rhain yn llawn, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cau Llys Ynadon Castell Nedd.

- Penderfynwyd y dylid cau Llys Ynadon Castell Nedd;
- Bod y llwyth gwaith yn symud i Abertawe; a
- Bod Ardaloedd Cyfiawnder Lleol Castell Nedd Port Talbot ac Abertawe yn uno i greu Ardal Cyfiawnder Lleol Gorllewin Morgannwg.

Fel y nodwyd eisoes, codwyd pwyntiau allweddol ynglŷn â chyfiawnder lleol; lle gwag a'r defnydd a wneir o adeiladau; awgrymiadau eraill; costau; goblygiadau teithio; effaith ar ynadon; a'r effaith ar fusnesau lleol.

Mae'r prif gasgliadau fel a ganlyn

- Croesawir y cynlluniau i adfywio'r dref, a dylai'r Cyngor fynd ymlaen i brynu safle Llys Ynadon Castell Nedd
- Nid yw'r gwaith o symud Llys Ynadon Castell Nedd i Lys Sirol Castell Nedd, sef oddeutu £1.46m yn fforddiadwy, ac nid yw'n gwneud y defnydd gorau o arian cyfyngedig.
- Nid oes unrhyw leoliad arall fforddiadwy ac ymarferol wedi'i ganfod na'i sicrhau o fewn ffiniau'r dref.
- Oherwydd fod Llys Ynadon Abertawe yn agos i Gastell Nedd (naw milltir) ni fyddai unrhyw gynnydd mewn amseroedd teithio yn rhwystro defnyddwyr rhag mynychu'r llys.
- Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ceisio gwneud arbedion mewn perthynas â chostau adeilad a chyfleustodau Llys Ynadon Castell Nedd, sydd oddeutu £220k y flwyddyn.
- Hefyd, byddai'n osgoi'r angen i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wario £1.3 miliwn i gyflawni gwaith cynnal a chadw yn Llys Ynadon Castell Nedd.
- Mae'r penderfyniad yn gwella'r defnydd a wneir o ystâd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, a fydd yn gwella a chynyddu'r defnydd a wneir o Lys Ynadon Abertawe o 51% i oddeutu 80%.
- Bydd cyfuno llwyth gwaith Llysoedd Ynadon Castell Nedd ac Abertawe yn cynorthwyo gyda rheoli achosion a rhestru achosion yn effeithiol.

## **Gweithredu**

Bydd angen ystyried nifer o ffactorau cyn y gellir cau Llys Ynadon Castell Nedd, ac felly bydd angen cyflwyno cynllun gweithredu manwl yn awr. Hysbysir rhanddeiliaid ynglŷn â pha bryd y disgwylir i'r llys gau unwaith y cwblheir y cynllun gweithredu.

Ymgynghorir â'r Undeb o ran yr effaith a gaiff y penderfyniad ar staffio ac ar aelodau staff unigol yn awr.

Hefyd, ymgynghorir â'n rhanddeiliaid sy'n defnyddio adeilad y llys, fel y gallant baratoi a gweithredu eu cynlluniau gweithredu ar gyfer trosglwyddo.

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn parhau i weithio'n agos ag asiantaethau partner i sicrhau y cyflawnir y trosglwyddiad.

## **Egwyddorion yr ymgynghoriad**

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi eu gosod yn yr egwyddorion ymgynghori.

[www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf](http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf)

## **Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr**

Peter Hain AS (Castell Nedd)

Dr Hywel Francis AS (Aberafan)

Bethan Jenkins AC (Gorllewin De Cymru)

Gwenda Thomas AC (Dwyrain Abertawe)

David Rees AC (Aberafan)

Julie James AC (Gorllewin Abertawe)

Suzy Davies AC (Gorllewin De Cymru)

David C Davies YH (Cadeirydd Mainc Castell Nedd a Phort Talbot)

Philip John Jones YH (Cadeirydd Mainc Sir Abertawe)

Elizabeth Perman YH (Cadeirydd Panel Teulu Gorllewin Morgannwg)

Phil Llewellyn YH (Dirprwy Gadeirydd Mainc Abertawe)

David Bentley-Miller YH

Joanna Jenkins MBE YH

Mrs Ross Evans YH

David Huw Rees YH

Mrs Roberta Parker YH

W G Rees YH

Leslie Rees YH

Kevin Jones YH

Alison Carman YH

Jennifer Wright YH

Robert Bradshaw YH

Michael Powell YH

Y Cynghorydd John Rogers BEM YH

Helen Heaven YH

Georgina Ann Scannell MBE YH

Carolyn Wheeler YH

Elizabeth Davis YH

Mrs Janet Kirby YH

Mrs M Rees YH

Daron Herbert YH

Gaynor Norton YH

Gwen Bond YH

Mrs S J Bishop YH

M D B Reynolds YH

Kathleen Boyce YH

Caroline Hughes YH

Marie Elizabeth Morley YH

Caroline Probert YH

Cangen Cymdeithas yr Ynadon Gorllewin Morgannwg

Ynadon Abertawe

Ynadon Castell Nedd a Phort Talbot

Peter Davies YH (wedi ymddeol)

Mrs Olive Newton OBE YH (wedi ymddeol)

Y Cynghorydd Alan Llewellyn

Y Cynghorydd Alex Thomas

Cyngor Cymuned Coedffranc, Sgiwen

Cyngor Cymuned Cilybebyll

Cyngor Cymuned Clydach



Cyngor Castell Nedd Port Talbot ar gyfer Gwasanaeth Gwirfoddol

Ed Beltrami, Prif Erlynydd y Goron, Cymru

Bwrdd Rheoli Tîm Troseddwyr Ifanc Castell Nedd Port Talbot

Lauren Watson, Llywodraethwr CEM Abertawe

Angela Williams- GEOAmey

Ymddiriedolaeth Prawf Cymru

Staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn Llys Ynadon Castell Nedd a Phort Talbot

Undeb Llafur PCS

Cyfreithwyr ac Eiriolwyr Clive Rees

Philip Jones

Elizabeth Savage

Christopher Lewis

Ms C Skinner

Kelvin Hughes

## Atodiad B

Amseroedd teithio i'r llys Ynadon agosaf i'r rheiny sydd agosaf i Lys Ynadon Castell Nedd ar hyn o bryd.

Dadansoddiad o'r boblogaeth yn ôl amser teithio	Car		Trafnidiaeth Gyhoeddus	
	Cyn cau	Ar ôl cau	Cyn cau	Ar ôl cau
Y boblogaeth o fewn 30 munud	91%	85%	56%	3%
Y boblogaeth sy'n byw rhwng 30 a 60 munud i ffwrdd	9%	15%	32%	62%
Y boblogaeth sy'n byw rhwng 60 a 90 munud i ffwrdd	0%	0%	6%	27%
Y boblogaeth sy'n byw rhwng 90 a 120 munud i ffwrdd	0%	0%	6%	6%
Y boblogaeth sy'n byw dros 120 munud i ffwrdd	0%	0%	0%	3%
Amser teithio cyfartalog mewn munudau	14	25	34	59

Cafwyd yr amseroedd cyfartalog uchod o fodel a luniwyd i asesu amseroedd teithio o bob Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA) gan na fyddai'n ymarferol i gyfrifo amseroedd teithio o bob cyfeiriad unigol yng Nghymru a Lloegr. Diffinnir y rhain gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fel ardaloedd sydd â 1,000 i 2,000 o bobl gan amlaf. Felly, rydym yn cyfrifo amseroedd teithio ganol bob LSOA i bob llys/tribiwnlys lleol, y llys ynadon yn yr achos hwn, a phwyso a mesur yn unol â data cyfrifiad 2011.

Rydym yn cyfrifo amseroedd teithio mewn car a chyda trafndiaeth gyhoeddus drwy ddefnyddio offeryn cynllunio siwrnai Transport Direct<sup>1</sup>. Cyfrifir y teithiau hyn gan dybio fod unigolyn yn mynd i'r llys yn cyrraedd am 10 o'r gloch y bore ac yn gadael am 5 o'r gloch y prynhawn. Os nad oes trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer y daith allan ac yn ôl, tybiwn nad oes trafndiaeth gyhoeddus ar gael. Fodd bynnag, mae'n debygol mai barn besimistaidd yw hyn, oherwydd mewn rhai achosion efallai mai methiant y Cynllunydd Siwrnai i ddod o hyd i'r ffordd sydd ar fai.

Dylai'r model hwn roi syniad gweddol gywir o'r effaith ar amseroedd teithio, ond mae rhai cyfyngiadau yn anochel. Rydym wedi mapio bob LSOA i'r llys yr ymddengys fel yr un mwyaf priodol. Fodd bynnag, dyma ein hamcangyfrif gorau ac mae'n bosib nad yw'n gywir ym mhob achos.

<sup>1</sup> Mae'r holl ffigurau'n amodol ar Delerau ac Amodau Transport Direct ([www.transportdirect.info/Web2/About/TermsConditions.aspx](http://www.transportdirect.info/Web2/About/TermsConditions.aspx))

[leave blank – inside back cover]

© Hawlfraint y Goron 2013  
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heblaw logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/) neu e-bostiwch: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

**Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i [sponsoring division telephone and/or email address].**